I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC 2024 Rhif 49

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) 2024

*Gwnaed* *02 Rhagfyr 2024*

*Yn dod i rym* *03 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 12(3), 41(2)(a) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn, rhychwantu a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 03 Rhagfyr 2024.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

(4) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*"), oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi sefydlu'r practis;

ystyr "claf" ("*patient*"), ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yw—

(a) claf cofrestredig,

(b) preswylydd dros dro,

**1** 2006 dccc 42

(c) personau y mae'n ofynnol i'r practis ddarparu triniaeth sy'n angenrheidiol ar unwaith iddynt [yn unol â chyfarwyddyd 3(2)], a

(d) unrhyw berson arall y mae'r practis i ddarparu triniaeth iddo yn unol â datganiad y practis;

ystyr "claf cofrestredig" ("*registered patient*") yw person y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei gofnodi fel un sydd ar restr y practis o gleifion neu y mae'r practis wedi ei dderbyn i'w gynnwys ar ei restr o gleifion;

ystyr "Cofrestr Feddygol" ("*Medical Register*") yw'r cofrestrau a gedwir o dan adran 2 o Ddeddf Meddygaeth 1983(**1**);

mae i "Cofrestrydd Arbenigol Ymarfer Cyffredinol" ("*GP Specialty Registrar*") yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau GMC(**2**);

mae i "Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol" yr ystyr a roddir i "*GP Registrar*" yn Adran 55 o Ddeddf Meddygaeth 1983;

mae i "cyfnod y tu allan i oriau" ("*out of hours period*") yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau GMC;

ystyr "datganiad practis" ("*practice statement*") yw'r datganiad a baratoir yn unol â chyfarwyddyd 2;

ystyr "Deddf 2006" ("*2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gwasanaethau unedig" ("*unified services*") yw'r gwasanaethau a ddisgrifir yn rheoliad 17 o'r Rheoliadau GMC (gwasanaethau unedig) ac a ddarperir yn ystod oriau craidd, neu wasanaethau sy'n cyfateb i'r gwasanaethau hynny;

mae i "gwasanaethau y tu allan i oriau" ("*out of hours services*") yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau GMC;

ystyr "mangre practis" ("*practice premises*") yw'r fangre a bennir yn natganiad y practis;

mae i "oriau craidd" ("*core hours*") yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau GMC;

ystyr "practis" ("*practice*") yw practis a sefydlwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol at ddibenion darparu ei wasanaethau meddygol sylfaenol o dan adran 41(2)(a) o Ddeddf 2006;

ystyr "preswylydd dros dro" ("*temporary resident*") yw person a dderbyniwyd gan bractis fel preswylydd dros dro yn unol â gofynion datganiad y practis ac nad yw cyfrifoldeb y practis amdano

---

(**1**) Diwygiwyd adran 2 gan O.S. 2002/3135, O.S. 2006/1914, O.S. 2007/3101, O.S. 2008/1774 ac O.S. 2014/1101.

**2** Diwygiwyd y diffiniad ar gyfer "Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol" gan O.S. 2010/234.

wedi ei derfynu yn unol â’r weithdrefn a bennir yn y datganiad hwnnw;

mae i “proffesiynolyn gofal iechyd” yr ystyr a roddir i “health care professional” yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o’r Rheoliadau GMC;

mae i “rhagnodydd” (“*prescriber*”) yr un ystyr ag yn rheoliad 3 o’r Rheoliadau GMC(**1**);

ystyr “y Rheoliadau GMC” (“*the GMS Regulations*”) yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023(**2**);

ystyr “rhestr practis o gleifion” (“*practice’s list of patients*”) yw’r rhestr a gedwir mewn cysylltiad â phractis gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan gyfarwyddyd 8;

mae i “swyddog meddygol” (“*medical officer*”) yr un ystyr ag yn is-baragraff 92(4) o Atodlen 3 i’r Rheoliadau GMC;

mae i “ymarferydd meddygol cyffredinol” (“*general medical practitioner*”) yr un ystyr ag yn rheoliad 2 o’r Rheoliadau GMC(**3**).

(5) At ddibenion y Cyfarwyddydau hyn, mae Atodlen 3 i’r Rheoliadau GMC i’w darllen—

(a) fel pe bai cyfeiriadau at “contractwr” yn gyfeiriadau at “practis”, a

(b) ym mharagraff 55(6), fel pe bai’r cyfeiriad at “reoliad 21(2)(b)” yn gyfeiriad at “gyfarwyddyd 23 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) 2024”.

### Datganiadau practis

**2.—**(1) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn dymuno darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn unol ag adran 41(2)(a) o Ddeddf 2006, rhaid iddo sefydlu un neu ragor o bractisau at y diben hwn a rhaid iddo baratoi mewn cysylltiad â phob practis ddatganiad practis y mae’n rhaid iddo nodi—

(a) y gwasanaethau sydd i’w darparu;

(b) cyfeiriad pob un o’r mangreoedd sydd i’w defnyddio i ddarparu’r gwasanaethau hynny;

(c) i bwy y mae’r practis i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys, pan fo’n briodol, drwy gyfeirio at ardal y byddai gan berson

---

**1** Diwygiwyd y diffiniad o “rhagnodydd” gan O.S. 2007/205 (Cy. 19), rheoliad 4(5), O.S. 2014/2291 (Cy. 226), O.S. 2016/1221 (Cy. 292) ac O.S. 2019/149 (Cy. 34).

**2** O.S. 2023/953 (Cy. 155), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/1421 (Cy. 250).

**3** Diwygiwyd y diffiniad ar gyfer “ymarferydd meddygol cyffredinol” gan O.S. 2010/234.

sy’n preswylio ynddi hawlogaeth i gael gwasanaethau gan y practis;

(d) os yw’r practis i ddarparu gwasanaethau unedig—

(i) y weithdrefn (os oes un) i berson—

(aa) gwneud cais am gael ei gynnwys yn rhestr y practis o gleifion a baratoir gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 8;

(bb) cael ei dderbyn i’w gynnwys yn y rhestr honno;

(cc) cael ei wrthod i’w gynnwys yn y rhestr honno; neu

(dd) cael ei dynnu oddi ar y rhestr honno, a

(ii) ym mha amgylchiadau a thrwy ba weithdrefn (os oes un)—

(aa) y gall claf gael ei dderbyn fel preswylydd dros dro gan y practis; a

(bb) y gall cyfrifoldeb dros glaf a dderbyniwyd fel preswylydd dros dro gael ei derfynu;

(e) y weithdrefn amgen (os oes un) i berson gael gwasanaethau meddygol sylfaenol gan y practis, ac eithrio fel claf cofrestredig neu breswylydd dros dro;

(f) ym mha amgylchiadau a thrwy ba weithdrefn (os oes un) y caniateir i’r Bwrdd Iechyd Lleol neilltuo cleifion i’r practis;

(g) pan fo’n gymwys, statws rhestr y practis o gleifion, sef a yw’r rhestr honno yn agored ynteu wedi ei chau i geisiadau gan gleifion i’w cynnwys yn ei restr, ac ym mha amgylchiadau y gallai statws y rhestr newid; ac

(h) unrhyw fanylion a gofynion pellach mewn perthynas â gweinyddu a rhedeg y practis y mae’r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau—

(a) bod y practis yn gweithredu yn unol â’r gofynion a’r gweithdrefnau a bennir yn natganiad y practis; a

(b) bod datganiad y practis yn cael ei ddiwygio, yn ôl yr angen, i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y materion a bennir ym mharagraff (1)(a) i (h).

(3) Caniateir i bractis gynnwys, yn benodol—

(a) un neu ragor o gyflogeion i’r Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) un neu ragor o broffesiynolion gofal iechyd sy’n darparu gwasanaethau i’r Bwrdd Iechyd Lleol o dan gontract am wasanaethau; neu

(c) cyfuniad o is-baragraffau (a) a (b).

## RHAN 2

### Darparu Gwasanaethau

**Gwasanaethau i gleifion**

**3.** Pan fo practis yn darparu gwasanaethau unedig, rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y practis—

(a) yn darparu’r gwasanaethau hynny, ac unrhyw wasanaethau eraill y mae datganiad y practis yn eu pennu, i gleifion y practis, ar unrhyw adegau, o fewn oriau craidd, a bennir yn rheoliad 17 o’r Rheoliadau GMC; a

(b) yn bodloni gofynion rheoliad 18(2)(a)(i) i (iii) o’r Rheoliadau GMC.

**Mangreoedd**

**4.** Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod mangre’r practis a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol—

(a) yn addas i gyflenwi’r gwasanaethau hynny; a

(b) yn ddigonol i ateb anghenion rhesymol cleifion y practis.

**Darparu gwasanaethau**

**5.** Pan fo practis yn darparu gwasanaethau unedig, rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y practis yn cydymffurfio—

(a) â darpariaethau Atodlen 2;

(b) â darpariaethau Rhan 1 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau GMC;

(c) â rheoliadau 23, 24 a 25 o’r Rheoliadau GMC; a

(d) â pharagraffau 128 a 129 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau GMC.

**Safon gwasanaethau y tu allan i oriau**

**6.** Rhaid i bractis sy’n darparu gwasanaethau y tu allan i oriau, wrth ddarparu’r gwasanaethau hynny, fodloni’r safonau a’r dangosyddion ansawdd diweddaraf a nodir mewn canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Diwygio datganiad y practis**

**7.** Pan ddiwygir datganiad y practis yn unol â chyfarwyddyd 2(2)(b) ac, o ganlyniad i'r diwygiad hwnnw, y ceir newid yn yr ystod o wasanaethau a ddarperir i gleifion y practis, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu am y diwygiad mewn unrhyw fodd y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r practis yn ei weld yn addas, naill ai gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gan y practis.

## RHAN 3

## Cleifion

**Rhestrau cleifion**

**8.** Pan fo practis i ddarparu gwasanaethau unedig, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol baratoi a chadw'n gyfredol restr o gleifion—

(a) sydd wedi eu derbyn gan y practis i'w cynnwys yn ei restr o gleifion yn unol â'r gofynion a nodir yn natganiad y practis, ac nad ydynt wedi eu tynnu oddi ar y rhestr honno wedyn yn unol â'r weithdrefn a nodir yn y datganiad hwnnw; a

(b) pan fo'n gymwys, sydd wedi eu neilltuo i'r practis yn unol â gofynion a bennir yn natganiad y practis ac nad yw'r penderfyniad i'w neilltuo wedi ei ddad-wneud yn unol ag unrhyw weithdrefn a bennir yn y datganiad hwnnw.

**Hoff ddewis y claf o ymarferydd**

**9.**—(1) Pan fo practis yn darparu gwasanaethau unedig, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y practis yn cofnodi yn ysgrifenedig unrhyw hoff ddewis a fynegir gan y person hwnnw (neu, yn achos plentyn neu oedolyn sydd heb alluedd, y person a wnaeth y cais ar ran y ceisydd) i gael gwasanaethau gan gyflawnydd penodol, naill ai yn gyffredinol neu mewn perthynas â chyflwr penodol.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y practis yn ymdrechu i gydymffurfio ag unrhyw hoff ddewis rhesymol a fynegir o dan baragraff (1) ond nid oes angen i'r practis wneud hynny—

(a) os oes gan y cyflawnydd sy'n hoff ddewis sail resymol dros wrthod darparu gwasanaethau i'r claf, neu

(b) os nad yw'r cyflawnydd sy'n hoff ddewis yn cyflawni'r gwasanaeth o dan sylw ar ran y practis yn rheolaidd.

# RHAN 4

## Rhagnodi a Gweinyddu

**Rhagnodi**

**10.** Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â’r gofynion yn Rhan 5 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau GMC.

# RHAN 5

## Personau sy’n cyflawni gwasanaethau

**Cymwysterau cyflawnwyr**

**11.** Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â’r gofynion ym mharagraffau 61, 62, 63, 64, 68, 69 a 74 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau GMC.

**Llofnodi dogfennau**

**12.** Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â’r gofynion ym mharagraff 73 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau GMC.

**Telerau gwasanaeth ymarferwyr meddygol cyffredinol ar gyflog misol a gyflogir i ddarparu gwasanaethau o bractis**

**13.** Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol, ar neu ar ôl 1 Mawrth 2006, yn cynnig cyflogaeth i ymarferydd meddygol cyffredinol i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol mewn perthynas â phractis, rhaid iddo gynnig y gyflogaeth honno ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol na’r rhai sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen “Model terms and conditions of service for a salaried general practitioner employed by a GMS practice” a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain a Chydffederasiwn y GIG fel eitem 1.2 o’r dogfennau atodol i gontract GMC 2003.

**Trefniadau ar gyfer Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol**

**14.**—(1) Dim ond yn ddarostyngedig i’r amodau ym mharagraff (2) y caniateir i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth), yn gweithredu drwy ei phwyllgor statudol o dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, gyflogi Cofrestrydd Arbenigedd Ymarfer Cyffredinol mewn practis.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw na chaiff Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, dim ond am ei fod wedi cyflogi neu gymryd ymlaen Gofrestrydd Arbenigedd Ymarfer Cyffredinol, leihau

cyfanswm yr oriau pryd y bydd ymarferwyr meddygol eraill yn cyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol yn y practis neu pryd y bydd staff eraill yn eu cynorthwyo wrth gyflawni'r gwasanaethau hynny.

(3) Rhaid i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sy'n cyflogi Cofrestrydd Arbenigedd Ymarfer Cyffredinol mewn practis—

(a) cynnig telerau cyflogaeth i'r Cofrestrydd Arbenigedd Ymarfer Cyffredinol hwnnw yn unol â'r cyfraddau ac yn ddarostyngedig i'r amodau a geir mewn unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru; a

(b) ystyried, a sicrhau bod y practis yn ystyried, unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Cynllun Cofrestryddion Arbenigedd Ymarfer Cyffredinol.

# RHAN 6

## Cofnodion, Taflen, Adroddiadau i swyddog meddygol a rhoddion

### Cofnodion

**15.—**(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y practis yn cadw cofnodion digonol o fynd at gleifion ac o'i driniaeth i gleifion.

(2) Pan fo'r practis yn darparu gwasanaethau unedig, a'i fod yn cadw unrhyw un neu ragor o'r cofnodion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) ar ffurf cofnodion cyfrifiadur, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y gofynion yn is-baragraff 78(3)(a), (b) ac (c) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau GMC wedi eu bodloni.

(3) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraffau 79, 80, 81, 82, 87, 89, 90 a 93 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau GMC.

### Cyfrinachedd data cleifion

**16.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod gan bob practis berson sy'n gyfrifol am arferion a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyfrinachedd data personol a gedwir gan y practis.

### Darparu gwybodaeth i gleifion

**17.** Pan fo practis yn darparu gwasanaethau unedig, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraff 84 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau GMC, ac eithrio na chaniateir i'r gofynion yn y paragraff 84 hwnnw bod rhaid

darparu'r wybodaeth a bennir yn Atodlen 4 gynnwys y gofynion ym mharagraffau (b), (c), (bb) ac (cc) o Atodlen 4 a bod rhaid rhoi "enw'r Bwrdd Iechyd Lleol" yn lle'r cyfeiriad yn yr Atodlen 4 honno at baragraff (a).

**Archwiliadau clinigol**

**18.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraff 86 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau GMC.

**System Adrodd Genedlaethol Gweithlu Cymru**

**19.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraff 88 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau GMC.

**Darparu gwybodaeth i swyddog meddygol**

**20.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraff 92 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau GMC.

**Rhoddion ac atal llwgrwobrwyo**

**21.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraff 132 a 133(1) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau GMC.

**Cwynion**

**22.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â darpariaethau Rhan 9 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau GMC.

## RHAN 7

## Ffioedd a Thaliadau

**Ffioedd a thaliadau**

**23.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod practis yn cydymffurfio â'r gofynion yn rheoliad 21(2) i (9) o'r Rheoliadau GMC.

## RHAN 8

## Tystysgrifau

**Tystysgrifau**

**24.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y practis, wrth ddarparu gwasanaethau meddygol

sylfaenol, yn dyroddi yn rhad ac am ddim i glaf neu i gynrychiolwyr personol y claf unrhyw dystysgrif feddygol o ddisgrifiad a ragnodir yng ngholofn 1 o Atodlen 1 i’r Rheoliadau GMC sy’n berthnasol i unrhyw wasanaeth y mae’r practis yn ei ddarparu yn unol â datganiad y practis, sy’n ofynnol yn rhesymol o dan y deddfiadau a bennir mewn perthynas â’r dystysgrif yng ngholofn 2 o’r Atodlen honno neu at ddibenion y deddfiadau hynny, ac eithrio, ar gyfer y cyflwr y mae’r dystysgrif yn ymwneud ag ef—


(a) pan fo ymarferydd meddygol nad yw wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen gan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn perthynas â’r practis yn mynd at y claf; neu

(b) pan na fo’r claf yn cael ei drin gan broffesiynolyn gofal iechyd neu o dan oruchwyliaeth proffesiynolyn gofal iechyd.

(2) Ni fydd yr eithriad ym mharagraff (1)(a) yn gymwys o dan yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yn rheoliad 19(3) o’r Rheoliadau GMC.

**Dirymu**

**25.** Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Byrddau Iechyd Lleol 2008 a ddaeth i rym ar 16 Medi 2008 wedi eu dirymu.



**Llofnodwyd gan Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 02 Rhagfyr 2024**